OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 762 (Cy.72)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *14 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2006. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005

**2.** Diwygir Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005(**3**) fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 16(3), yn lle “Ni chaiff neb drosglwyddo cwota sydd ei angen” rhodder “Ni chaiff neb drosglwyddo'n gwota nas defnyddiwyd gwota y mae ei angen”.

**4.** Yn rheoliad 23(4)(a), yn lle “cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na” rhodder “cael ei anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 14 Mai neu cyn”.

**5.** Yn rheoliad 33(5)—

(a) yn lle “ddarparu ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol”;

(b) yn lle “sicrhau bod y rhestr yn ei gyrraedd heb fod yn hwyrach na” rhodder “ar 14 Mai neu cyn”.

**6.** Yn rheoliad 35—

(a) ym mharagraff (1)(a)—

(i) yn lle “â chyflwyno” rhodder “ag anfon” ac yn lle “gyflwyno” rhodder “anfon”;

(ii) hepgorer “fel bod y datganiad yn ei gyrraedd”;

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2005/537 (Cy.47).

(b) ym mharagraff (1)(b)—

(i) yn lle "â chyflwyno" rhodder "ag anfon" ac yn lle "gyflwyno" rhodder "anfon";

(ii) hepgorer "fel bod y crynodeb yn ei gyrraedd";

(c) ym mharagraff (2), yn lle "a gyflwynwyd" rhodder "a anfonwyd".

**7.** Yn rheoliad 36—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "and (3)" rhodder "i (3)";

(b) ar ôl paragraff (2) rhodder—

"(2A) Lle mae prynwr—

(a) yn anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol grynodeb o ddatganiadau y mae'n ofynnol eu cyflwyno o dan Erthygl 8(2) o Reoliad y Comisiwn, sy'n anghywir; a

(b) drwy wneud hynny yn achosi gorddatganiad neu danddatganiad ganddo ef neu ganddi hi, o ddanfoniadau a wnaed iddo neu iddi,

mae ef neu hi'n agored i dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol gosb sy'n gyfwerth â swm damcaniaethol yr ardoll a fyddai'n ddyledus ar 0.5% o'r maint yn ôl cyfaint y llaeth sy'n ffurfio'r gorddatganiad neu'r tanddatganiad.";

(c) ym mharagraff (6)—

(i) ar ôl "agored i dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol", rhodder ",os yw'n cyflwyno hysbysiad,";

(ii) ar y diwedd ychwaneger "gan ddechrau ar y degfed diwrnod ar hugain ar ôl cyflwyno'r hysbysiad".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

14 Mawrth 2006

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, a fydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2006, yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 (O.S. 2005/537) ("Rheoliadau 2005").

Mae Rheoliadau 2005 yn gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L 279, 21.10.2003, t.123) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 595/2004 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L 94, 31.3.2004, t.22) ("Rheoliad y Comisiwn").

Mae rheoliad 3 yn cywiro gwall yn rheoliad 16 o Reoliadau 2005 sy'n atal trosglwyddiad cwotâu sy'n angenrheidiol i ofalu am gynhyrchu sy'n digwydd cyn y dyddiad trosglwyddo. Mae'r diwygiad hwn yn darparu y caniateir trosglwyddo'r cwota hwnnw, ond ni ellir ei gyfrif fel cwota nas defnyddiwyd.

Mae rheoliadau 4 i 6 yn diwygio darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr a phrynwyr llaeth ddarparu gwybodaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn dyddiad penodedig. Y gofyniad yw bod yr wybodaeth yn cael ei hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dyddiad hwnnw neu cyn y dyddiad hwnnw.

Mae rheoliad 7 yn cywiro hepgoriad yn rheoliad 36 o Reoliadau 2005 i gosbi prynwyr sy'n anfon crynodebau anghywir ynghylch cynhyrchu y mae'n ofynnol eu cyflwyno o dan Erthygl 8(2) o Reoliad y Comisiwn. Mae hefyd yn darparu bod y gosb ar brynwyr sy'n methu â chyflwyno crynodeb sy'n ofynnol gan Erthygl 8(4) o Reoliad y Comisiwn cyn 1 Gorffennaf yn y flwyddyn pryd y mae ei angen yn gymwys 30 o ddiwrnodau ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i'r perwyl hwn.

Mae Arfarniad Rheoliadol o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes wedi'i baratoi ac mae copïau ar gael o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.